Wales UNCRC Monitoring Group

Grŵp Monitro CCUHP Cymru



# Maniffesto ar gyfer Etholiadau'r Senedd

## Mai 2026

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[1] (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol, sy'n rhwymol yn gyfreithiol, sy'n nodi'r hawliau dynol sylfaenol y dylai pob baban, plentyn a pherson ifanc o dan 18 oed eu cael er mwyn mwynhau plentyndod da a datblygu i'w lawn botensial. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i safon byw ddigonol, cael addysg, chwarae a gofal iechyd, ochr yn ochr â'r hawl i glywed ei lais, cael ei ofalu amdano a'i ddiogelu waeth beth fo'i gefndir neu amgylchiadau.

Er bod traddodiad cryf yng Nghymru o ddatblygu, hyrwyddo a chynnal hawliau plant, mae angen mwy o gamau i sicrhau bod pob baban, plentyn a pherson ifanc yn cyflawni ei holl hawliau, yn ddiogel ac yn cael ei gefnogi'n llawn, ac yn gallu mynegi ei farn ar bob mater sy'n effeithio arno.

## Y stori hyd yn hyn....

Yn 2011, arloesodd Cymru i fod yr awdurdodaeth gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gymryd camau i ymgorffori CCUHP mewn cyfraith ddomestig drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[2], sy'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar holl Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyladwy' i CCUHP wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.[3] Yn y bôn, ystyr 'sylw dyladwy' yw bod yn rhaid rhoi ystyriaeth briodol i holl erthyglau CCUHP a phrotocolau dewisol penodedig.

### Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

**Adran 1:** Yn gosod dyletswydd gyfreithiol o roi sylw dyladwy i Ran 1 CCUHP a phrotocolau dewisol penodedig ar Weinidogion Llywodraeth Cymru wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

**Adran 2:** Rhaid i Weinidogion Cymru wneud cynllun ("y cynllun plant") sy'n nodi'r trefniadau y maent wedi'u gwneud, neu'n bwriadu eu gwneud, at ddibenion sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1.

**Adran 3:** Wrth baratoi neu adolygu'r cynllun, rhaid iddynt roi sylw i unrhyw adroddiadau neu argymhellion gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Adran 4:** Rhaid i Weinidogion Cymru lunio Adroddiad Cydymffurfio bob 5 mlynedd.

**Adran 5:** Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP.

Fel enghraifft o ymgorffori '***anuniongyrchol***', mae gan y gyfraith bresennol ei chyfyngiadau gan nad yw'n rhwymo'r llywodraeth nac awdurdodau cyhoeddus i weithredu yn unol â CCUHP, nac yn darparu rhwymedi cyfreithiol i blentyn (neu ei gynrychiolydd) sy'n dymuno dwyn achos i fynnu ei hawliau a herio cam yn erbyn ei hawliau.

Mewn cyferbyniad, byddai ymgorffori ***uniongyrchol*** yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â CCUHP a galluogi plant i orfodi eu hawliau mewn llysoedd cenedlaethol os cânt eu torri[4]. Yn yr Alban, derbyniwyd deddfwriaeth yn 2024 sy'n ymgorffori CCUHP yn uniongyrchol yn y gyfraith. Mae hyn yn dangos potensial model datganoli cadw yn ôl i alluogi ymgorffori mewn modd sy'n darparu ar gyfer hawliau y gellir eu gorfodi'n uniongyrchol ar lefel ddatganoledig.

**Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gymryd y camau canlynol i gryfhau hawliau plant yng Nghymru**

# Ymgorffori CCUHP yng Nghymru yn uniongyrchol

## Gwella'r gallu i orfodi hawliau plant yn gyfreithiol

Er bod y ddeddfwriaeth bresennol wedi dangos y potensial i gefnogi ymgorffori hawliau plant drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i CCUHP[5], mae ymchwil wedi amlygu cyfyngiadau a'r angen i fynd ymhellach na'n dull 'anuniongyrchol' o ymgorffori[6].

Mae angen ymgorffori CCUHP yn llawn ac yn uniongyrchol i sicrhau'r gallu cyfreithiol i orfodi hawliau plant yn unigol. Dylid cynnig llwybr uniongyrchol i blant yng Nghymru at rwymedi cyfreithiol mewn llys barn am dorri eu hawliau CCUHP.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac atebolrwydd priodol, dylai Cymru ymgorffori CCUHP yn uniongyrchol yng nghyfraith Cymru drwy gyflwyno deddfwriaeth debyg a gychwynnwyd yn yr Alban drwy Ddeddf CCUHP (Corffori) (yr Alban) 2024[7].

### Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru

- Gyflwyno deddfwriaeth sy'n ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn ac yn uniongyrchol yng nghyfraith Cymru.

# Elfennau allweddol deddfwriaeth

Er mwyn sicrhau bod CCUHP yn cael ei ymgorffori'n llawn ac yn uniongyrchol yng nghyfraith Cymru, rhaid cynnwys yr elfennau statudol canlynol.

## i) Cynllun Hawliau Plant

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun Hawliau Plant i amlinellu sut y bydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â'i dyletswyddau o dan y gyfraith newydd. Dylai'r cynllun hwn ddarparu'r trefniadau angenrheidiol o ran sut y bydd Gweinidogion yn hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru; y camau sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo a hybu ymwybyddiaeth o CCUHP; paratoi Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a ffyrdd effeithiol y gall plant gael at rwymedïau cyfreithiol. Dylai'r Cynllun fod yn destun adolygiad cyfnodol.

## ii) Adroddiadau Cydymffurfio

Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd ar y camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith Cymru ac amlinellu cynlluniau yn y dyfodol i gydymffurfio ymhellach. Rhaid i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi bob dwy flynedd a hanner, a dylid ei osod gerbron y Senedd yn destun craffu a thrafod[8].

## iii) Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

Dylid gwneud Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant (*Children's Rights Impact Assessments*/CRIA) yn orfodol a'u cymhwyso i bob cynnig ar gyfer deddfwriaeth a pholisi sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar blant[9]. Er cydnabod bod cynnydd da wedi'i wneud gan y weinyddiaeth bresennol i gynnal a chyhoeddi'r asesiadau hyn[10], gallant amrywio o hyd o ran ansawdd, cael eu datblygu'n rhy hwyr yn y broses bolisi neu beidio â chael eu cymhwyso i rai penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar blant[11]. Yn nodedig, mae hyn yn cynnwys cyllideb Llywodraeth Cymru, lle mae diffyg tryloywder ar wariant ar blant mewn cyllidebu cyhoeddus ar draws pob portffolio gweinidogol, sy'n ei gwneud hi'n anodd asesu newidiadau mewn dyraniadau cyllid i feysydd polisi penodol[12].

## iv) Gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP

Cafwyd rhywfaint o gynnydd, ond cynnydd cyfyngedig, wrth hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP[13], gwaith nad yw wedi'i werthuso i ddysgu a gyrhaeddodd pob plentyn a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn effeithiol, na'i integreiddio i ddatblygiad proffesiynol a hyfforddiant yng Nghymru. Mae angen strategaeth gynhwysfawr gydag adnoddau digonol i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP ymhlith phlant, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, gyda mecanweithiau monitro, gwerthuso ac adrodd cadarn wedi'u sefydlu.

## v) Cyrff Cyhoeddus Cymru

Mae gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru bwerau sylweddol mewn perthynas â gweithredu CCUHP. Cyflwynwyd dyletswydd o 'sylw dyladwy' i CCUHP mewn rhywfaint o ddeddfwriaeth sectoraidd drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, gan osod gofynion ar wneuthurwyr penderfyniadau sy'n gweithio'n bennaf ym meysydd gofal cymdeithasol ac addysg[14]. Croesawyd hyn, ond bu'n ad-hoc hyd yn hyn gyda threfniadau adrodd, monitro a chydymffurfio aneffeithiol. Mae diffyg cydlyniant a chysondeb i sicrhau bod ***holl*** gyrff cyhoeddus Cymru yn gweithio yn unol â CCUHP.

Mae deddfwriaeth yr Alban yn mynd ymhellach na'r gyfraith bresennol yng Nghymru, gan ei gwneud yn ofynnol i ***bob*** awdurdod cyhoeddus weithredu'n gydnaws â CCUHP wrth arfer swyddogaethau datganoledig a chyhoeddi adroddiadau ar y cynnydd i weithredu hawliau plant. Yn rhan o ddeddfwriaeth newydd Cymru, dylid disgwyl i bob awdurdod cyhoeddus ddatblygu 'Cynlluniau Plant' sy'n nodi ei drefniadau i weithredu'n gydnaws â CCUHP ac yn cynnwys trefniadau i gynnal a chyhoeddi asesiadau gorfodol o effaith ar hawliau plant, strategaethau hawliau plant cynhwysfawr, a threfniadau ar gyfer cydlynu, goruchwylio a gweithredu CCUHP, gan gynnwys systemau cwyno annibynnol, effeithiol sy'n gyfeillgar i blant.

### Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru

- Gyhoeddi Cynllun Hawliau Plant diwygiedig sy'n nodi sut y bydd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys trefniadau adrodd.
- Cyhoeddi Adroddiadau Cydymffurfio cyfnodol sy'n nodi'r camau y mae wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r gyfraith, a gyflwynir yn destun craffu yn y Senedd.
- Cyhoeddi strategaeth sydd ag adnoddau llawn sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o CCUHP, gan gynnwys trefniadau adrodd cyfnodol.
- Cyflwyno gofyniad statudol i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a'u cyhoeddi'n systematig ar bob cynnig polisi, deddfwriaeth a chyllideb, a phenderfyniadau strategol eraill sy'n debygol o effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar blant.
- Sicrhau bod hyfforddiant hawliau plant, gan gynnwys y broses ar gyfer datblygu asesiadau o'r effaith ar hawliau plant, yn cael ei wneud yn orfodol i swyddogion a Gweinidogion, gan adrodd ar gynnydd o bryd i'w gilydd.
- Cyflwyno dyletswydd ar gyrff cyhoeddus Cymru i weithredu'n gydnaws â CCUHP, gyda threfniadau monitro, atebolrwydd ac adrodd cyfnodol cadarn ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Cyhoeddi canllawiau statudol i gefnogi a galluogi cyrff cyhoeddus Cymru i gyflawni eu dyletswyddau.[15]

# Galluogwyr i gefnogi gweithredu'r ddeddfwriaeth a gwireddu hawliau plant yng Nghymru yn llawn

## Strategaeth genedlaethol gynhwysfawr ar hawliau plant

Er gwaethaf argymhellion dro ar ôl tro gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, nid oes gan Gymru strategaeth na chynllun gweithredu cynhwysfawr o hyd ar gyfer gweithredu CCUHP. Heb gynllun hawliau plant trawsadrannol gyda chamau gweithredu a dangosyddion mesuradwy, ni all Llywodraeth Cymru gyfleu'n gydlynol ei gweledigaeth a'i huchelgeisiau ar gyfer plant, na'r camau sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru, gan gynnwys gweithredu argymhellion y Cenhedloedd Unedig[16]. Mae'n hanfodol bod y strategaeth yn cael ei hategu gan fecanweithiau casglu data cadarn sy'n mynd i'r afael â'r diffyg data presennol sy'n benodol i Gymru ac wedi'i ddadgyfuno, er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o effaith penderfyniadau, polisïau a deddfwriaeth ar grwpiau penodol o blant, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

### Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru

- Gyhoeddi Strategaeth Hawliau Plant genedlaethol gynhwysfawr ag adnoddau llawn gyda thargedau cyraeddadwy a mesuradwy sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n destun trefniadau monitro, gwerthuso ac adrodd cadarn, wedi'u llywio gan fecanweithiau casglu data cryfach gyda data wedi'i ddadgyfuno.

## Cydlynu a goruchwylio

Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig wedi argymell cryfhau trefniadau cydlynu presennol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod rhwymedigaethau CCUHP o dan gyfraith Cymru ac sy'n sail i Strategaeth Hawliau Plant yn cael eu cyflawni'n effeithiol ar draws pob portffolio gweinidogol. Dylid penodi Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Babanod, Plant a Phobl Ifanc, wedi'i gefnogi gan dîm canolog o swyddogion sydd â digon o adnoddau dynol, technegol ac ariannol i gyflawni dyletswyddau.

### Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru

- Benodi Gweinidog Cabinet dros Fabanod, Plant a Phobl Ifanc, wedi'i gefnogi gan dîm canolog sydd ag adnoddau da a fydd yn darparu arweinyddiaeth gref, cyfarwyddyd, ac yn sicrhau cydlynu a chraffu gwell ar faterion plant.
- Sefydlu Pwyllgor Cabinet ar gyfer Plant i sicrhau bod holl aelodau'r cabinet yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau blaenoriaeth i hawliau plant ar draws pob adran yn y llywodraeth.

## Mecanweithiau cwynion plant

Mae angen mecanwaith cwyno cadarn sy'n sicrhau bod gwybodaeth sy'n briodol i oedran ar gael yn hawdd i bob plentyn, ynghyd â chyngor a chymorth proffesiynol ynghylch sut i wneud cwyn a cheisio cynrychiolaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi taflen gwynion i blant[17] sy'n esbonio sut i roi adborth a sut i gwyno os na roddir 'sylw dyladwy' i CCUHP, ac sy'n cynnwys gwybodaeth am y cymorth a'r cyngor sydd ar gael[18]. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod system gwneud iawn ar gael i blant o dan y gyfraith, rhaid sefydlu mecanwaith cwynion annibynnol sy'n gyfeillgar i blant, a chynnwys y plant yng ngwaith ei ddatblygu.

### Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru

- Ddatblygu (cyd-gynllunio gyda phlant) System Cwynion Plant sy'n annibynnol, yn gyfrinachol, yn gyfeillgar i blant ac yn hygyrch er mwyn grymuso pob plentyn i'w defnyddio ledled Cymru.

## Comisiynydd Plant Cymru

Mae Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru (CPC) yn darparu swyddogaeth annibynnol statudol, i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant yng Nghymru[19]. Eglura Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fod sefydlu sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol annibynnol i blant, sy'n gweithredu'n annibynnol ar y llywodraeth, yn rhan greiddiol o ymrwymiadau CCUHP y gwladwriaethau sy'n barti[20]. Mae adolygiadau blaenorol o benodiad, cyllid ac atebolrwydd y Comisiynydd wedi argymell ei drosglwyddo o Lywodraeth Cymru i'r Senedd er mwyn gwella annibyniaeth y Comisiynydd.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi gofyn dro ar ôl tro am fwy o bwerau er mwyn gallu ymateb i faterion sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru sydd y tu allan i gymwyseddau datganoledig. Mae hyn yn peri pryder sylweddol, o ystyried y diffyg craffu a goruchwylio ar dorri hawliau plant mewn perthynas â chyfiawnder troseddol, tlodi a materion lloches a mewnfudo.

### Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru

- Gynyddu pwerau cyfreithiol a chylch gwaith CPC, a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am y penodi a'r cyllid i'r Senedd.

## Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant

Sefydlwyd bwrdd cynghori allanol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyngor allanol ar ddatblygu Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant ac i lywio'r broses o gyflawni hawliau plant yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Dylai'r fforwm hwn gael ei gadw a'i gryfhau gan Lywodraeth nesaf Cymru er mwyn sicrhau cyngor allanol arbenigol.

### Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru

- Gynnal a chryfhau'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant

## Cyfeiriadau


1. Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn | OHCHR. Gweler hefyd animeiddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yma -
2. Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
3. Ers mis Mai 2012, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i ofynion CCUHP a'i Brotocolau Dewisol wrth wneud penderfyniadau ynghylch darpariaeth i'w chynnwys mewn deddfiad, neu wrth lunio polisi a/neu ddeddfwriaeth newydd, neu adolygu polisi a/neu ddeddfwriaeth bresennol neu eu newid. Estynnwyd y gofyniad hwn i gwmpasu pob swyddogaeth weinidogol o fis Mai 2014
4. Hoffman, S. (2019) Briefing – Incorporation of International Human Rights, tt 2-3
5. Hoffman, S ac O'Neill S (2018) The impact of legal integration into the rights of the child in Wales.
6. Hoffman, S.; Nason, S.; Beacock, R.; Hicks, E. (gyda chyfraniad gan Croke, R.) (2021). Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 54/2021
7. Deddf Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Corffori) (yr Alban) 2024
8. Mae Adran 4 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad cydymffurfio. Mae'r adroddiad diweddaraf yma Adroddiad Cydymffurfio Llywodraeth Cymru (Hydref 2020-2023)
9. Llywodraeth Cymru (2021) Cynllun Hawliau Plant 2021.
10. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant (CRAG) gydag aelodau sefydlog: Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, UNICEF UK, ac Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant. Mae CRAG yn cynghori'r Llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud â hawliau plant ar lefel strategol ac mae ar gael i gynorthwyo pob adran gyda CRIA. Datblygwyd Llawlyfr a Thempled CRIA diwygiedig hefyd i gefnogi swyddogion yn eu rôl.
11. Ysgol y Gyfraith Caeredin (2024) Children's Rights Impact Assessments in Wales: An Analysis of Best Practice
12. Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru a Phrosiect Cyfraith Gyhoeddus (2024) Rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw dyladwy i ran 1 o CCUHP yn unol ag Adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, mae hyn yn cynnwys datblygu Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.
13. Llywodraeth Cymru (2025) Codi Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant yng Nghymru 2
14. Mae Adran 7(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd i roi sylw dyladwy i CCUHP ar unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â: phlentyn y mae angen gofal a chymorth arno, neu y gallai fod eu hangen arno; plentyn sy'n ofalwr y mae angen cymorth arno, neu y gallai fod angen cymorth arno; neu blant sy'n derbyn gofal (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf). Mae Adran 7(1) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gosod dyletswydd i roi sylw dyladwy i CCUHP ar gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran 1 o'r Ddeddf (sy'n ymwneud ag anghenion Dysgu Ychwanegol plentyn neu berson ifanc).
15. Comisiynydd Plant Cymru (2016) Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant.
16. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb yn 2024 i Argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig; I gael rhagor o wybodaeth, mae Blog Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru yn esbonio a chrynhoi'r Sylwadau Terfynol 2023. I gael gwybod rhagor am y broses fonitro ac adrodd i'r Cenhedloedd Unedig, gweler Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CRC) | Traciwr Hawliau Dynol | Traciwr hawliau dynol ac animeiddiad EHRC yma https://youtu.be/5KQGz-toMnk
17. Llywodraeth Cymru (2020) Hawliau plant: taflen i blant a phobl ifanc ynghylch gwneud cwyn.
18. er enghraifft, Meic Cymru a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
19. Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.
20. Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2002) Sylw Cyffredinol Rhif 2, Rôl sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol annibynnol wrth hyrwyddo ac amddiffyn hawliau'r plentyn, paragraffau 1, 4 a 25. Gweler hefyd: Penderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 48/134 (1993) Egwyddorion sy'n ymwneud â Statws Sefydliadau Cenedlaethol (Egwyddorion Paris). Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig wedi galw am gydymffurfiaeth lawn gan sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol a Chomisiynwyr Plant ag Egwyddorion Paris, ac am sicrhau bod ganddynt y mandad a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt

## Amdanom Ni

Mae **Grŵp Monitro CCUHP Cymru** yn gynghrair genedlaethol o asiantaethau anllywodraethol ac academaidd, sydd â'r dasg o fonitro a hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yng Nghymru.  Sefydlwyd Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn 2002 ac ers mis Mai 2016 mae dan reolaeth Plant yng Nghymru. Mae'r Grŵp wedi gweithio gyda Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac wedi cyflwyno adroddiadau cymdeithas sifil i lywio Archwiliadau dilynol Gwladwriaethau’r DU sy’n Barti yn 2002, 2008, 2016 a 2024 ac mae'n cymryd rhan mewn cyfleoedd eraill i hyrwyddo hawliau plant, drwy fecanweithiau cytuniad eraill y Cenhedloedd Unedig, polisi a phrosesau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

Mae Aelodau Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn gynrychiolwyr sefydliadau anllywodraethol ac academyddion ac wedi'u henwebu ganddynt, sydd fel a ganlyn:

Amnesty International, Barnardo's Cymru, Plant yng Nghymru, Comisiynydd Plant Cymru (sylwedyddion), Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru (sylwedyddion), NSPCC Cymru, Chwarae Cymru, Achub y Plant Cymru, Yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant, UNICEF UK a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (sylwedyddion)



# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

1 Rydw i o dan 18, felly mae'r hawliau yma i fi



2 Mae gen i'r hawliau yma beth bynnag sy'n digwydd

3 Rhaid i unrhyw benderfyniadau ystyried beth sydd orau i fi

4 Rhaid i fy Llywodraeth wneud yn siŵr mod i'n cael mynediad at fy holl hawliau

5 Rhaid i fy rhieni/ ngofalwyr gael cefnogaeth i mi allu cael mynediad at fy holl hawliau

6 Mae gen i hawl i fywyd

7 Mae gen i hawl i enw a chenedl

8 Mae gen i hawl i hunaniaeth

9 Mae gen i hawl i fyw gyda fy nheulu, os dyna sydd orau i fi

10 Mae gen i hawl i weld fy nheulu os nad ydyn nhw'n byw gyda fi

11 Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghymryd allan o'm gwlad yn anghyfreithlon

12 Mae gen i hawl i gael fy marn wedi'i chlywed a'i chymryd o ddifri

13 Mae gen i hawl i fynegi fy hunan

14 Mae gen i hawl i'm meddyliau, fy nghred a'm crefydd fy hun

15 Mae gen i hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau



16 Mae gen i hawl i breifatrwydd



17 Mae gen i hawl i gael mynediad at wybodaeth ddibynadwy

18 Mae gen i hawl i gael fy magu gan y ddau riant os yw hynny'n bosib

19 Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag trais, camdriniaeth neu esgeuluso

20 Mae gen i hawl i gael gofal ac amddiffyniad os wyf fi'n methu byw gyda'm teulu fy hun

21 Mae gen i hawl i'r gofal gorau os caf fy mabwysiadu

22 Mae gen i hawl i gael gofal ac amddiffyniad os wyf fi'n ffoadur

23 Mae gen i hawl i amddiffyniad a chefnogaeth arbennig os oes gen i anabledd

24 Mae gen i hawl i ofal iechyd da

25 Os wyf fi ar wahân i'm teulu, rhaid adolygu fy nhriniaeth a'm gofal yn rheolaidd

26 Rhaid i'm teulu gael help ariannol os bydd angen hynny arnyn nhw

27 Mae gen i hawl i fwyd, dillad, a chartref glân, diogel

28 Mae gen i hawl i addysg

29 Mae gen i hawl i gyrraedd fy mhotensial llawn



33 Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau anghyfreithlon

30 Mae gen i hawl i ddysgu am fy niwylliant, fy arferion, fy iaith a'm crefydd



35 Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cael fy nghipio, fy ngwerthu a'm masnachu

31 Mae gen i hawl i ymlacio, chwarae, a chymryd rhan mewn gweihgareddau diwylliannol

32 Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag gwneud gwaith peryglus

34 Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cam-drin rhywiol

36 Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed



37 Rhaid i fi gael fy nhrin â pharch a gofal os caf fy nghyhuddo o dorri'r gyfraith

38 Rhaid i mi beidio ag ymuno â'r fyddin nes mod i'n 15 oed o leiaf

39 Mae gen i hawl i help ychwanegol os wyf fi wedi cael fy anafu, fy esgeuluso, neu fy nhrin yn wael

40 Os bydda i'n cael fy nghyhuddo o dorri'r gyfraith, mae gen i hawl i help cyfreithiol ac i gael fy nhrin yn deg

41 Os oes gan fy ngwlad gyfreithiau ychwanegol i amddiffyn plant, rhaid eu dilyn nhw

42 Mae gen i hawl i wybod am fy holl hawliau

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

CYMRU IFANC
YOUNG WALES